Cerdyn myfyriwr

Rhodd mêr esgyrn yn achub bywyd babi

Roedd Olivia'n blentyn 18 mis oed normal, hapus a oedd wrth ei bodd yn chwarae gydag adargi melyn y teulu a mynd i'r cylch chwarae gyda'i mam, Karen. Ond dros nos bron, fe newidiodd.

"Roedd yn gwrthod fy ngadael," cofiodd Karen. "Roedd yn cydio ynof ac yn crïo pan fyddwn yn ei rhoi i lawr, ac roedd yn ddi-hwyl drwy'r amser."

Cyn hir dechreuodd Olivia waedu o'i thrwyn a datblygodd frech. Roedd mewn poen ofnadwy.

"O fewn dwy awr o weld meddyg mewn ysbyty," meddai Karen, "dywedwyd wrthym fod gan Olivia lewcemia lymffoblastig acíwt."

Dros y ddwy flynedd nesaf, cafodd Olivia gemotherapi i drin ei chanser, a llawer o drallwysiadau gwaed i adfer y celloedd gwaed coch a'r platennau a ddinistriwyd gan y driniaeth.

Ymddangosai fod popeth yn mynd yn hwylus nes i Olivia ddechrau mynd yn gloff. Roedd y lewcemia wedi dod yn ôl. Awgrymodd y meddygon drawsblaniad mêr esgyrn. Cynhaliwyd profion ar y ddau riant i weld a allen nhw roi, ond nid oedd y cydweddiad yn ddigon agos. Chwiliodd y meddygon am roddwr yn y cofrestri mêr esgyrn. Buont yn lwcus: dim ond deufis a gymerodd.

> "Rydym mor ddiolchgar i'r rhoddwr mêr esgyrn gan fod ei haelioni wedi rhoi cyfle i Olivia dyfu'n ferch fach llawn bywyd fel y mae hi heddiw."

Gallwch ddarllen mwy o storïau gwir ar:
www.giveandletlive.co.uk

NHS
Gwaed a Thrawsblaniadau

Ffeil ffeithiau

1. Er mwyn cael gwybod pa mor iach yw'r mêr, gallai meddyg gymryd sampl bychan o un o'r esgyrn yn y frest, y glun, yr asgwrn cefn neu'r goes. Fel rheol gwneir hyn dan anesthetig lleol.

2. Mae trawsblaniad mêr esgyrn yn newid y bôn-gelloedd sy'n ffurfio gwaed nad ydynt yn gweithio yn y mêr esgyrn, am fêr esgyrn iach.

3. Gallwch roi mêr esgyrn dan anesthetig cyffredinol neu drwy ddefnyddio peiriant gwahanu celloedd.

Trafodaethau byw

Dewiswch un neu fwy o'r datganiadau canlynol i'w trafod fel grŵp. Ysgrifennwch y ddadl dros ac yn erbyn y datganiadau a phenderfynwch ar ba ochr yr ydych chi. A yw pob aelod o'ch grŵp yn cytuno?

- "Os yw pobl yn marw oherwydd na allant ddod o hyd i gydweddiad mêr esgyrn, mae ar bob un ohonom ddyletswydd i ymuno â chofrestrfa mêr esgyrn."
- "Mae bod yn rhoddwr gwaed a bod ar gofrestrfa mêr esgyrn fwy neu lai'r un peth. Pam na fyddech yn gwneud y ddau beth?"
- "Rwy'n hyfforddi i fod yn hyfforddwr ffitrwydd felly fyddwn i ddim am fentro mynd yn sâl trwy ddod yn rhoddwr mêr esgyrn."

Rhoi eich hun yn eu hesgidiau nhw

- Mae mam Olivia'n dweud, "Rydym mor ddiolchgar i'r rhoddwr mêr esgyrn gan fod ei haelioni wedi rhoi cyfle i Olivia dyfu'n ferch fach llawn bywyd fel y mae hi heddiw." Cedwir manylion y rhoddwr a'r claf yn hollol gyfrinachol. Ond petai nhw'n medru cwrdd, dychmygwch sut byddai'r cyfarfod hwnnw.
- Rydych ar gofrestrfa rhoddwyr mêr esgyrn ac rydych wedi clywed eich bod yn gydweddiad ar gyfer merch fach fel Olivia. Beth yw eich ymateb?
- Gyda phartner, chwaraewch ran mam Olivia (neu ei thad) a'i meddyg. Sut byddai ei mam yn disgrifio'r newid yn ymddygiad ac iechyd cyffredinol Olivia ar ddechrau ei hafiechyd?

  Ewch yn ôl am archwiliad meddygol a thrafodwch lwyddiant llawdriniaeth Olivia a sut daeth hi 'yn ôl at ei hun' unwaith eto.

Fe gewch wybodaeth i'ch helpu i lunio eich dadleuon ar y wefan **www.giveandletlive.co.uk**